

Canllaw i Rhieni/Gofalwyr ynglŷn ag Amddiffyn Plant yn Sir Ddinbych

Mae'r gwybodaeth yma ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad

Os yw eich teulu wedi'u hatgyfeirio i'r Gwasanaethau Addysg a Phlant oherwydd pryderon amddiffyn plant, bydd y daflen wybodaeth hon yn egluro beth fydd yn digwydd nesaf.

Rydym yn deall efallai eich bod yn poeni, yn flin neu'n ofidus, ond mae'r Gwasanaethau Addysg a Phlant eisiau gweithio gyda chi i ddiogelu eich plentyn rhag niwed.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau nad ydynt wedi'u hateb yn y daflen wybodaeth hon neu fod unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn gallu eich cynorthwyo.

Pam fy mod wedi fy atgyfeirio?

Weithiau gall ymwelydd iechyd, ysgol, sefydliad arall neu aelod o'r cyhoedd gysylltu â ni am eu bod yn pryderu bod plentyn yn cael ei niweidio neu ei esgeuluso. Gelwir hyn yn atgyfeiriad.

Mae'n rhaid i ni wneud ymholiadau i bryderon a godwyd a sicrhau bod eich plentyn yn ddiogel. Byddwn yn dweud wrthy ch bob tro pwy sydd wedi atgyfeirio eich teulu, oni bai bod yr unigolyn yn aelod o'r cyhoedd sydd wedi gofyn i beidio â chael eu henwi.

Beth yw Ymchwiliad Amddiffyn Plant?

Mae gan Gwasanaethau Addysg a Phlant ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod yr holl blant yn Sir Ddinbych yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn. Mae hyn yn golygu cyflawni ymchwiliad amddiffyn plant i ymchwilio unrhyw bryderon fod plentyn yn cael ei niweidio neu ei esgeuluso.

Pan ddaw ymchwiliad i ben, gwneir penderfyniad ynghylch pa gamau sydd angen eu cymryd nesaf. Gallai hyn arwain at gynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant, a byddwn yn eich gwahodd chi i'r Gynhadledd.

Pwy sy'n cynnal yr Ymchwiliad Amddiffyn Plant?

Mae Ymchwiliad Amddiffyn Plant yn cael ei gyflawni gan Weithiwr Cymdeithasol, gan weithio'n agos gyda'r Heddlu, os oes pryder bod trosedd wedi'i chyflawni. Bydd angen iddynt gael gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n eich adnabod chi a'ch teulu, megis eich ymwelydd iechyd, eich Meddyg Teulu ac athro/athrawes eich plentyn. Byddwn

Canllaw i Rhieni/Gofalwyr ynglŷn ag Amddiffyn Plant yn Sir Ddinbych

yn gofyn am eich caniatâd cyn i ni siarad ag unrhyw weithwyr proffesiynol eraill oni bai ein bod yn credu y gallai hyn beri mwy o risg i'r plentyn.

Beth sy'n digwydd yn ystod yr ymchwiliad?

Bydd Gweithiwr Cymdeithasol yn ymweld â chi yn eich cartref i drafod y pryderon, a gofyn cwestiynau i chi a'ch teulu.

Bydd angen i Weithiwr Cymdeithasol weld eich plentyn hefyd, a bydd yn gofyn i gael siarad â nhw ar eu pennau eu hunain os ydynt yn ddigon hen. Fel arfer byddwn yn gofyn am eich caniatâd i wneud hyn, ond os yw eich plentyn mewn perygl o niwed difrifol, efallai y bydd angen i ni siarad â nhw ar eu pennau eu hunain heb eich caniatâd.

Bydd Swyddog yr Heddlu yn rhan o'r ymchwiliad ac efallai y byddwn yn gofyn am eich caniatâd i gyfweld eich plentyn ar fideo, er mwyn gallu casglu tystiolaeth ar gyfer y llys. Gallwch fynd i'r cyfweiliad gyda'ch plentyn, ond ni fydd modd i chi eistedd gyda nhw tra byddant yn cael eu cyfweld.

Weithiau, efallai y byddwn yn gofyn i chi gytuno bod meddyg yn archwilio eich plentyn er mwyn i ni ganfod a oes gan eich plentyn unrhyw anafiadau, a sut y digwyddodd yr anafiadau.

Byddwn yn gofyn am eich caniatâd yn gyntaf, ond os nad ydych yn cytuno, efallai y bydd angen i ni gymryd cyngor cyfreithiol i sicrhau bod eich plentyn yn iach.

Yn ystod yr ymchwiliad, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn eich hysbysu ynglŷn â sut y mae pethau'n dod yn eu blaen a beth fydd yn digwydd nesaf.

Beth sy'n digwydd ar ôl yr ymchwiliad?

Pan fydd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi casglu'r holl wybodaeth, bydd ef neu hi yn trafod y canfyddiadau gyda'u rheolwr ac yn penderfynu pa gamau i'w cymryd nesaf. Efallai y bydd yr archwiliad yn dangos nad yw eich plentyn yn cael ei niweidio na'i esgeuluso, ac ni fydd y Gwasanaethau Addysg a Phlant yn cymryd unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, os ydych yn teimlo eich bod angen cymorth ychwanegol i ofalu am eich plentyn, efallai y gallwn ddarparu cymorth.

Os yw archwiliad yn dangos efallai bod eich plentyn yn cael ei niweidio neu ei esgeuluso, neu mewn perygl o niwed, gall y Gwasanaethau Addysg a Phlant benderfynu cynnal cyfarfod ffurfiol a elwir yn Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.

Beth yw Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant?

Mae hwn yn gyfarfod ffurfiol lle y gall rhieni, Gweithwyr Cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n adnabod y teulu ddod ynghyd i drafod y pryderon a phenderfynu beth y gellir ei wneud i gadw eich plentyn yn ddiogel rhag niwed. Os bydd cyfarfod o'r fath

Canllaw i Rhieni/Gofalwyr ynglŷn ag Amddiffyn Plant yn Sir Ddinbych

yn cael ei gynnal, byddwch yn derbyn gwahoddiad a thaflen wybodaeth yn egluro'r broses yn fanwl.

Beth os nad yw fy mhentyn yn ddiogel gartref?

Bydd mwyafrif llethol y plant sy'n cael eu hatgyfeirio i'r Gwasanaethau Addysg a Phlant oherwydd pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant yn parhau i fyw gartref gyda'u rhieni. Os yw'r Gwasanaethau Addysg a Phlant wir yn pryderu bod perygl i'r plentyn yn y cartref, efallai y byddwn yn cymryd camau pellach i'w hamddiffyn.

Os ydym yn credu nad yw eich plentyn yn ddiogel yn y cartref, bydd Gweithiwr Cymdeithasol yn siarad â chi ynglŷn â pha opsiynau sydd ar gael i'w cadw'n ddiogel. Gall hyn gynnwys:-

- Rhywun sy'n byw yn eich cartref yn symud allan oherwydd y credir eu bod yn achosi perygl i'ch plentyn.
- Cyfaill neu berthynas yn symud i mewn i'ch cartref i'ch cynorthwyo i ofalu am eich plentyn.
- Eich plentyn yn mynd i aros gyda theulu neu gyfeillion, sydd wedi'u cymeradwyo gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant.
- Eich plentyn yn mynd i fyw gyda Gofalwr Maeth Cymeradwy.

Mae'r rhain oll yn drefniadau dros dro i sicrhau bod eich plentyn yn ddiogel tra byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau ei bod yn ddiogel i'ch plentyn fyw gartref, neu ein bod yn penderfynu na all eich plentyn ddychwelyd adref ar yr adeg hon.

Cwynion

Os ydych am wneud awgrym, canmoliaeth neu gŵyn am unrhyw un o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant, gallwch gysylltu â'r Swyddog Cwynion gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:-

Rhif rhadffôn: 0800 032 1099

E-bost: ssdcomments@denbighshire.gov.uk

Ysgrifennwch at: Swyddog Cwynion - Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Sir Ddinbych. LL18 3DP

We: sirddinbych.gov.uk/eichllais

Gall y gwybodaeth yma fod ar gael mewn ieithoedd a/neu fformatau eraill ar gais.